# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 01.02.08

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr W. Gareth Roberts (Cadeirydd); Dewi Llewelyn; Bill Lovelock

**Hefyd yn bresennol:** Gareth W. Jones (Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol), Emyr Searell-Jones (Uwch Reolwr Gwarchod y Cyhoedd); Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu), a Barbara Owen (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r Ymgeisydd:**;James Anderson ( Popplestone Allen)
**Gwrthwynebwyr:** Suzanne Fitzgerald (cyfreithiwr, cwmni Fraser Brown, ar ran Top Ten Bingo);
**Ymddiheuriad:** Y Cynghorwyr Gwilym Williams ac Ieuan Roberts

**1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO DOC FICTORIA, CAERNARFON**

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu adroddiad yn manylu ar gais cwmni cyfreithwyr Popplestone Allen am Drwydded Eiddo i Victoria Bingo, Doc Fictoria, Caernarfon. Adroddodd i dderbyn llythyr ar ran yr Heddlu yn datgan dim gwrthwynebiad; llythyr ar ran y Gwasanaeth Tân yn nodi bod angen trefnu ymchwiliad dan y Rheolau Adeiladu gan y Gwasanaeth cyn rhoi barn ar y cais; llythyr gan Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd yn datgan dim sylwadau; llythyr ar ran Cyngor Tref Caernarfon yn gwrthwynebu cais am neuadd Bingo; llythyr gan gyfreithwyr ar ran Top Ten Bingo yn gwrthwynebu'r cais; a nifer o lythyrau gan drigolion lleol a rhai sydd wedi buddsoddi yn y datblygiad yn gwrthwynebu'r cais.

Yng nghyswllt y llythyrau uchod, adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Chyfreithiol mai gwrthwynebu'r cais am drwydded dan y Ddeddf Gamblo 2005 oedd Cyngor Tref Caernarfon, ac felly ni ddylid ystyried y llythyr hwnnw mewn perthynas â'r gwrandawiad am drwydded eiddo. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Swyddog, atebodd y swyddog Gwasanaeth Tân bod angen gwybodaeth gan yr Adain Cynllunio bod y safle yn addas cyn y gellir trefnu Asesiad Tân.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor gyfle i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd

Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd grynhoi eu hachos.

Cyflwynwyd sylwadau gan gyfreithiwr ar ran Top Ten Bingo sydd yn rhedeg Neuadd Bingo cyfagos â safle Doc Fictoria. Mae'r cwmni yn gwrthwynebu'r cais ar sail nifer o resymau technegol ynglyn â:-

- Hysbysu'r cyhoedd – cyfeiriad/lleoliad ddim yn glir; amheuaeth bod y cyfnod ddim wedi bod yn ddigonol; lleoliad y rhybudd ddim yn ôl y Ddeddf.
- Y Gwasanaeth Tân heb allu cyflawni asesiad o'r safle
- Y cynllun llawr heb fanylion digonol

Yr oedd y cyfreithiwr o'r farn bod sail cyfreithlon dros beidio ag ystyried y cais am y rhesymau uchod, a chadarnhaodd ei bod yn cynnig hynny ar ran ei chleient.
Mynegwyd pryder hefyd ar ran y gwrthwynebwyr oherwydd nad oes lle wedi ei briodoli ar gyfer ysmygwyr, bod y drysau yn agor at i mewn, a dim safleoedd parcio digonol o gofio bod y Neuadd Bingo yn dal oddeutu 600 o bobl.

Cafodd cyfreithiwr ar ran yr ymgeisydd gyfle i ymateb i'r pwyntiau uchod, gan adrodd i'r holl rhybuddion gael eu gosod yn ôl canllawiau'r Ddeddf, ac nad oedd yn briodol trafod trefniadau Diogelwch Tân nes y bydd yr adeilad wedi ei gwblhau.

Wedi ystyried y cais gan y cyfreithiwr, penderfynodd yr aelodau y buasai'n briodol peidio ag ystyried y cais ar hyn o bryd oherwydd ei fod yn gynamserol, yn bennaf oherwydd nad oedd y cais yn cynnwys cynlluniau digon manwl.

**PENDERFYNWYD peidio mynd ymlaen i ystyried cais Victoria Bingo am Drwydded Eiddo oherwydd i aelodau'r Is-bwyllgor ystyried bod y cais yn gynamserol, yn bennaf oherwydd nad oedd y cais yn cynnwys cynllun safle gyda manylion digonol.**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd yr anfonir llythyr o fewn saith diwrnod yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor. Hysbyswyd pawb o'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.50